

**Darganfod  
Dadlau  
Dewis**

—  
**Discover  
Debate  
Decide**

**Bagloriaeth Cymru–Canolradd  
Llyfryn 02–Haenau Llywodraeth**



## **Beth yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru?**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cynnwys 60 o Aelodau Cynulliad o bob rhan o Gymru. Maen nhw'n cael eu hethol gan bobl Cymru i'w cynrychioli nhw a'u cymunedau, i wneud cyfreithiau ar gyfer Cymru, ac i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gwaith yn iawn.

## Haenau Llywodraeth




Cosb y rhai sy'n rhy glyfar i ymwneud â gwleidyddiaeth yw cael eu llywodraethu gan rai sy'n fwy dwl na nhw eu hunain.

- Plato, athronydd o Wlad Groeg

1

## Llywodraeth yng Nghymru

Mae sawl haen wahanol i lywodraeth yng Nghymru. Mae modd meddwl am yr haenau hyn fel haenau o nionyn, gyda phob haen yn cynrychioli gwahanol bethau sy'n effeithio ar ein bywydau.



## Pwy sy'n gwneud beth?

**Senedd Ewrop**

**Llywodraeth Ryngwladol**

**Lleoliad: Strasbwrg / Brwsel**

**Cynrychiolwyr: 763 ASE  
(Aelodau o Senedd Ewrop)**



2

**Cafodd yr Undeb Ewropeaidd ei sefydlu ar ôl yr Ail Ryfel Byd er mwyn atal rhyfel arall yn Ewrop.**



**Mae ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd (UE) yn cael effaith sylweddol ar y cyfreithiau y gallwn eu creu yn y DU. Ni ddylai ein cyfreithiau fynd yn erbyn cyfraith Ewrop, sy'n cael ei chreu drwy gytundebau rhwng y gwledydd sy'n aelodau o'r UE.**

3

**Enghraifft o hyn yw'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, sy'n rhestru'r mathau o ryddid y dylai pawb eu cael. Rhaid i holl gyfreithiau'r DU warchod yr hawliau hyn.**

4



*Llys Iawnderau Dynol, Strasbourg*



## Ariannu'r UE

Ers yr 1970au, mae'r UE wedi rhoi arian i ardaloedd tlawd yn Ewrop er mwyn annog twf economaidd. Mae Cymru'n cyfrif fel 'ardal dlawd' ac wedi cael biliynau o bunnoedd oddi wrth yr UE dros y blynyddoedd.

5

Mae rheilffordd Craig-glais yn Aberystwyth yn enghraifft o brosiect yng Nghymru sydd wedi manteisio o gael arian oddi wrth yr UE.



## Y Farchnad Sengl

Gall pobl, nwyddau ac arian symud yn rhydd rhwng aelod-wladwriaethau'r EU. O ganlyniad:

- Mae'n haws i ddinasyddion yr UE fyw, astudio a gweithio yng ngwledydd eraill yr UE.
- Mae'n haws i gwmnïau o Brydain allforio nwyddau i wledydd yr UE.
- Mae'n haws i bobl o Brydain brynu nwyddau sy'n dod o wledydd yr UE.



6

## Yr Ewro

O ganlyniad i'r Ewro, daeth yn haws cymharu prisiau nwyddau a gwasanaethau yng ngwledydd Ewrop.



Cafwyd cwynion yn sgil hynny am brisiau 'galwadau crwydro' ar ffonau symudol, ac fe gyflwynwyd deddfwriaeth Ewropeaidd newydd a oedd yn lleihau'r gost o wneud galwadau ar ffôn symudol i wledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd a derbyn galwadau ohonynt.

Cynrychiolir Cymru gan bedwar Aelod o Senedd Ewrop (ASE).

7

## Pynciau i'w trafod

A yw'n beth da neu'n beth drwg fod dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd yn rhydd i symud i Gymru i fyw, astudio neu weithio?

Ydy'r manteision o berthyn i'r Undeb Ewropeaidd yn negyddu'r anfanteision? A ddylai'r DU ymuno â'r Ewro?



## Senedd y DU

### Llywodraeth Genedlaethol

Lleoliad: Llundain  
Cynrychiolwyr: 650 AS  
(Aelodau Seneddol)



8

Mae'r blaidd wleidyddol sy'n ennill y nifer fwyaf o seddi yn y Senedd yn ffurfio Llywodraeth y DU, sy'n rheoli'r holl wlad.

Ers 1999, dim ond ar rai o'r pethau sy'n effeithio arnom ni yma yng Nghymru y mae Senedd y DU yn gwneud penderfyniadau, sef:

- Materion cyfansoddiadol y DU (y rheolau y mae'n rhaid i'r Llywodraeth gydymffurfio â nhw)
- Amddiffyn
- Polisi Tramor
- Polisi economaidd a threthi
- Y gyfraith gorfforaethol a rheoleiddio corfforaethau
- Deddfwriaeth ar gyflogaeth a chydraddoldeb
- Nawdd cymdeithasol (y system fudd-daliadau)
- Diogelwch trafndiaeth
- Diogelwch niwclear
- Ffilmiau, fideo a darlledu
- Yr Arolwg Ordnans (cymdeithas mapio cenedlaethol Prydain)
- Dynodi ardaloedd a gynorthwyr
- Y Loteri Genedlaethol
- Erthyly, ffrwythloniad dynol ac embryoleg
- Rheoli meddyginiaethau a'u diogelu
- Arbrofi ar anifeiliaid (ymchwil gwyddonol sy'n defnyddio anifeiliaid byw).



Mae penderfyniadau ar bopeth arall, gan gynnwys addysg ac iechyd, yn cael eu gwneud gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.



## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Llywodraeth Ddatganoledig

Lleoliad: Bae Caerdydd  
Cynrychiolwyr: 60 AC  
(Aelodau'r Cynulliad)



Sefydlwyd y Cynulliad ym 1999, ac mae'n gwneud penderfyniadau, yn gwario arian ac yn gwneud deddfau ar y pynciau a ganlyn:

- Amaethyddiaeth, coedwigaeth, pysgodfeydd a datblygu gwledig
- Henebion ac adeiladau hanesyddol
- Diwylliant
- Datblygu economaidd
- Addysg a hyfforddi
- Yr Amgylchedd
- Gwasanaethau tân ac achub, a hybu diogelwch rhag tân.
- Bwyd
- Iechyd a gwasanaethau iechyd
- Priffyrdd a thrafnidiaeth
- Tai
- Llywodraeth leol
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Gwasanaethau cyhoeddus
- Lles cymdeithasol
- Chwaraeon a hamdden
- Twristiaeth
- Cynllunio gwlad a thref
- Dŵr ac amddiffyn rhag llifogydd
- Y Gymraeg








## Cynghorau Lleol

### Llywodraeth Leol

Mae 22 awdurdod lleol (cynghorau) yng Nghymru. Mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys:

- Casglu gwastraff a'i waredu
- Ailgylchu
- Cynllunio
- Canolfannau hamdden
- Parciau
- Llyfrgelloedd
- Goleuadau stryd
- Mynwentydd
- Cofrestru genedigaethau, marwolaethau a phriodasau
- Ysgolion



9

Maent hefyd yn hybu busnesau lleol, twristiaeth a'r celfyddydau, ac fe ymgynghorir â nhw ar faterion lleol, gan gynnwys adeiladu ffyrdd a thai.



Llywodraeth Cymru sy'n dyrannu arian i'r cynghorau, ond mae gan yr awdurdodau lleol hefyd bwerau cyfyngedig i godi trethi.

Fel Aelodau o Senedd Ewrop, Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Cynulliad, mae cynghorwyr yn cael eu dewis drwy etholiadau, a gallant gynrychioli plaid wleidyddol neu sefyll fel ymgeiswyr annibynnol.

10

## Gweithgaredd – Pwy sy'n gyfrifol?

Pa haen o lywodraeth fyddai'r un orau i gysylltu â hi am y problemau a ganlyn? (Atebion ar y tudalen olaf)

Mae Keith yn byw yn Wrecsam. Mae wedi syrffedu ar deithio i Gaerdydd i weld gemau pêl-droed a rygbi rhyngwladol. Byddai'n falch pe bai stadiwm newydd yn cael ei adeiladu yng ngogledd Cymru, fel y gallai'r digwyddiadau pwysig hyn gael eu rhannu.



11

**Yr Haen o Lywodraeth:**



Mae angen tŷ mwy ar Tim a Barbara, ond nid ydynt eisiau symud mewn gwirionedd. Maent yn gallu benthycu arian i adeiladu estyniad y tu cefn i'w tŷ, ond rhaid iddynt gael caniatâd cynllunio.

**Yr Haen o Lywodraeth:**

12

Mae merch Jamie yn ddyslecsig. Mae Jamie eisiau i'w hysgol gynyddu nifer yr oriau o ddysgu cynorthwyol ar ei chyfer. Mae'r ysgol wedi dweud wrtho y byddai hynny'n golygu cyflogi aelod arall o staff.



**Yr Haen o Lywodraeth:**

13



Mae Nia yn gweithio mewn ffatri sy'n oer a thamp. Mae'n teimlo bod yr amodau gweithio mor wael fel eu bod yn tramgwyddo ar ei hawliau dynol.

**Yr Haen o Lywodraeth:**

14

Ers ymosodiadau 9/11, mae Mr Lewis yn pryderu am ddiogelwch y wlad. Hoffai weld mwy o aelodau'r lluoedd arfog yn patrolio yn y gorsafoedd a'r meysydd awyr er mwyn eu gwneud yn fwy diogel rhag terfysgaeth.



15

**Yr Haen o Lywodraeth:**



Mae Paul Fisher yn dad sengl. Mae'n credu y dylai gofal plant fforddiadwy fod ar gael i bob rhiant unrhyw adeg, gan gynnwys ar benwythnosau a gyda'r nos.

**Yr Haen o Lywodraeth:**

16

Mae Susan yn gweithio mewn coleg yng Nghasnewydd ac mae'n pryderu am nifer y myfyrwyr ifanc sy'n ysmegu ac yn yfed. Hoffai weld yr oedran cyfreithiol ar gyfer prynu alcohol a siagaréts yn codi i 21.



17

**Yr Haen o Lywodraeth:**

## Beth yw Datganoli?

Blynnyddoedd yn ôl, roedd yr holl benderfyniadau a oedd yn effeithio ar y DU yn cael eu gwneud yn Llundain gan Aelodau Seneddol yn Senedd y DU. Daeth hynny i ben yn hwyr yn y 1990au, wrth i sefydliadau gwleidyddol newydd gael eu creu yn yr Alban, Gogledd Iwerddon, Cymru ac, yn 2000, yn Llundain.



18 19 20 21

Datganoli yw'r broses o drosglwyddo pwerau o Lywodraeth neu Senedd ganolog (sef Senedd y DU yn yr achos hwn) i sefydliadau mwy lleol, fel y rheini yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Llundain.

Dyna pam mae Cymru'n cael gwneud ei phenderfyniadau ei hun ar faterion fel gofal iechyd, twristiaeth ac addysg.

**Cofiwch – gall Senedd y DU gymryd y pwerau hyn yn ôl unrhyw bryd!**

## Sut ddigwyddodd datganoli yng Nghymru?

Cafodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei sefydlu o ganlyniad i refferendwm.

Mae refferendwm yn debyg i etholiad, ond, yn hytrach na phleidleisio dros berson neu blaid wleidyddol, gofynnir i bobl dros 18 bleidleisio naill ai 'YDW' neu 'NAC YDW' wrth ymateb i gwestiwn.

Cynhaliwyd y refferendwm cyntaf mewn perthynas â'r Cynulliad ym 1979. Pleidleisiodd pobl Cymru yn erbyn y syniad o gael Cynulliad Cenedlaethol i Gymru, a hynny o bedwar i un.

**DIM OND 58.8% A BLEIDLEISIODD!**

Cynhaliwyd ail refferendwm ym mis Medi 1997:

**DIM OND 50.1% A BLEIDLEISIODD!**

**YDW**

**50.3%**

(mwyafrif o 6712 o bleidleisiau)

**NAC YDW**

**49.7%**

Sir Gaerfyrddin oedd y lle olaf yng Nghymru i gyhoeddi canlyniad y bleidlais. Pleidleisiodd digon o bobl o blaid 'YDW' yno i droi'r fantol, gan olygu y byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei sefydlu.



6 Mai 1999 - Etholiadau cyntaf y Cynulliad

12 Mai 1999 - Cyfarfod cyntaf y Cynulliad.

## Pynciau i'w trafod


A yw'n well bod rhannau unigol o'r DU yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain ar bethau fel gofal iechyd ac addysg, neu a ddylid rhedeg y DU gyfan yn yr un ffordd?



NHS  
WALES  
GIG  
CYMRU



Os dim ond hanner y pleidleiswyr sy'n pleidleisio mewn etholiad neu refferendwm, a ddylid derbyn y canlyniad?



### Yr Etholiad Mwyaf Llwgr yn y Byd

Ym 1927, enillodd yr Arlywydd Charles D.B. King yr etholiad arlywyddol yn Liberia, ar ôl cael 234,000 o bleidleisiau, yn ôl y ffigur swyddogol – roedd hynny'n dipyn o gamp, o ystyried mai dim ond 15,000 o bobl oedd wedi'u cofrestru i bleidleisio yn Liberia ar y pryd!



A ddylai pleidleisio fod yn orfodol, fel y mae mewn rhai gwledydd, gan gynnwys Awstralia a Thwrci? A fyddai'r posibilrwydd o gael dirwy neu o orfod gwneud gwasanaeth yn y gymuned yn golygu y byddai gan fwy o bobl ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth?

## Beth yw'r gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru?

**Llywodraeth Cymru** sy'n cynnig y rhan fwyaf o ddeddfau newydd ac mae'n gyfrifol am adrannau'r Llywodraeth ac am wariant.



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government



Mae'n cynnwys hyd at 12 o Weinidogion a Dirprwy Weinidogion, y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol (sef prif gynghorydd cyfreithiol Llywodraeth Cymru).

25

Mae Llywodraeth Cymru fel arfer yn cael ei ffurfio gan y blaid a enillodd y nifer fwyaf o seddi yn yr etholiad.



Mae **Cynulliad Cenedlaethol Cymru** yn cynnwys 60 Aelod Cynulliad sy'n dod o bob cwr o Gymru. Maent yn cael eu hethol gan bobl Cymru i'w cynrychioli nhw a'u cymunedau, i wneud deddfau i Gymru, ac i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gwaith yn iawn.

## Sut mae deddfau'n cael eu gwneud yng Nghymru



Mae deddfau fel selsig. Mae'n well peidio â gweld sut maent yn cael eu gwneud.

- **Otto von Bismarck**


26

Caniataodd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i'r Cynulliad ddechrau creu ei gyfreithiau ei hun; dyma'r tro cyntaf i gorff allu gwneud hynny yng Nghymru ers oes Hywel Dda (880-950 OC).

Gwnaed hynny drwy drosglwyddo pwerau o Senedd y DU fesul achos. Os oedd y Cynulliad yn dymuno deddfu ynglŷn â mater newydd, byddai'n rhaid i **Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCO)** gael ei gymeradwyo yn gyntaf.

27

Roedd LCO yn fath o is-ddeddfwriaeth a oedd yn trosglwyddo'r pwerau perthnasol o Senedd y DU i'r Cynulliad. Roedd yn rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, dau dŷ'r Senedd a'r Frenhines.



28 29



**Cymhwysedd Deddfwriaethol**



Ar 03 Mawrth 2011, pleidleisiodd pobl Cymru mewn refferendwm o blaid cael gwared ar y broses hir hon, gan roi pwerau deddfu llawn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

O ganlyniad, gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru wneud deddfau ynglŷn â phopeth yn yr 20 pwnc datganoledig heb orfod cael caniatâd Senedd y DU yn gyntaf.

Gwaith Aelodau'r Cynulliad yw craffu ar ddeddfau sy'n cael eu cynnig, a phleidleisio arnynt.

Gall deddfau newydd gael eu cynnig gan:

- Aelodau Llywodraeth Cymru
- Comisiwn y Cynulliad
- Pwyllgorau'r Cynulliad
- Aelodau Cynulliad unigol (os dewisir eu henwau mewn balot arbennig)



## Beth yw'r broses deddfu yng Nghymru?

Gelwir cyfreithiau drafft yn Filiau. Mae yna bedwar cyfnod yn y broses ar gyfer ystyried Bil, sef:

**Cyfnod 1** - pwyllgor deddfwriaeth yn ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a'r Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol hynny;



**Cyfnod 2** - pwyllgor deddfwriaeth yn ystyried y Bil ac unrhyw welliannau a gyflwynwyd yn fanwl - mae hyn yn cynnwys y pwyllgor yn edrych yn fanwl ar bob llinell o'r Bil;



**Cyfnod 3** - y Cynulliad yn ystyried y Bil ac unrhyw welliannau a ddewiswyd yn fanwl - mae hyn yn cynnwys y Cynulliad yn edrych yn fanwl ar bob llinell o'r Bil;



**Cyfnod 4** - pleidlais gan y Cynulliad i basio testun terfynol y Bil.

## Beth fydd yn digwydd os caiff y Bil ei basio?

Os caiff ei basio gan y Cynulliad, bydd rhaid i'r Bil dderbyn cymeradwyaeth Frenhinol gan y Frenhines cyn iddo ddod yn ddarn ffurfiol o ddeddfwriaeth.

## Datganoli a'ch bywyd chi

O ganlyniad i ddatganoli, mae Aelodau'r Cynulliad yng Nghymru wedi gallu creu polisiau a chynlluniau sy'n unigryw i Gymru, gan weithredu'n gyflym a phendant mewn argyfyngau.

Dros 10 mlynedd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno nifer o gynlluniau 'Gwnaed yng Nghymru' sy'n helpu i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywyd pob-dydd pobl. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Presgripsiynau am ddim
- Brecwast mewn ysgolion cynradd
- Nofio am ddim
- Gwneud trafnidiaeth ysgol yn fwy diogel
- Teithio ar fws am ddim i bobl ag anableddau a phobl dros 60 oed
- Rhoi llais i gymunedau ynghylch yr hyn sy'n digwydd i gaeau chwarae lleol
- Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen (dysgu drwy chwarae) ar gyfer plant rhwng 3 a 7 oed
- Parcio am ddim y tu allan i ysbytai
- Cymorth gwell ar gyfer gofalwyr ifanc
- Bwyd mwy iachus yn ysgolion a cholegau Cymru
- Tâl o 5c am fagiau plastig



30



Ymhellach i hynny, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i benodi Comisiynydd Pobl Hŷn a Chomisiynydd Plant: Keith Towler (ar y chwith) yw Comisiynydd Plant Cymru ar hyn o bryd.

31

## Pynciau i'w Trafod

A yw datganoli wedi bod yn beth da i Gymru?

## Tasgau Estynedig

1. Defnyddiwch y rhyngrwyd i ddod o hyd i wybodaeth am sut y pleidleisiodd gwahanol rannau o Gymru yn refferendymau 1979, 1997 a 2011. Dangoswch eich canfyddiadau ar ffurf graff, a gwnewch sylwadau ar unrhyw batrymau / debygrwydd / neu wahaniaethau sy'n ymddangos yn ddiddorol ichi.
2. Ysgrifennwch eich maniffesto eich hun, gan wneud addewidion ar gyfer pob un o'r 20 pwnc datganoledig, neu rai ohonynt. Gallwch gyflwyno eich maniffesto ar ffurf poster neu bamffled ddeniadol, neu gallwch ei gyflwyno fel araith i weddill y dosbarth. Gallech wedyn gynnal etholiad dosbarth, pan fydd pawb yn cael cyfle i bleidleisio dros eu hoff faniffesto.
3. Defnyddiwch y rhyngrwyd i ymchwilio i bolisiau pedair prif blaid Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynglŷn â'r pynciau datganoledig, a chymharwch y polisiau hynny. Cyflwynwch eich canfyddiadau ar ffurf tabl. Pa blaid wleidyddol sy'n apelio fwyaf atoch?
4. Lluniwch siart pei sy'n dangos nifer yr Aelodau sydd gan bob plaid yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar hyn o bryd. Dewiswch un blaid wleidyddol neu ragor a chymharwch eu canlyniadau mwyaf diweddar â'u canlyniadau mewn etholiadau blaenorol. A ydynt yn llai poblogaidd neu'n fwy poblogaidd? A yw hynny'n cael ei adlewyrchu mewn etholiadau cyngor, etholiadau seneddol neu etholiadau Ewropeaidd? Rhowch eich barn ynghylch pam y gallai hynny fod.
5. Gwylwch [www.senedd.tv](http://www.senedd.tv), ac yna ysgrifennwch adroddiad byr ar gyfer papur newydd, sy'n nodi'r hyn a gafodd ei drafod ac y penderfynwyd arno yn y cyfarfod, ac unrhyw oblygiadau i Gymru.

6. Dewisiwch un o'r pwyllgorau a defnyddiwch wefan y Cynulliad i'ch helpu i ddylunio poster, ar ffurf poster ffilm, sy'n dangos: aelodau'r pwyllgor; yr hyn a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf; a'r hyn sydd ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

## Atebion i Weithgaredd 1: Pwy sy'n gyfrifol?

- 1 Cynulliad Cenedlaethol Cymru
2. Awdurdod Lleol
3. Cynulliad Cenedlaethol Cymru
4. Senedd Ewrop
5. Senedd y DU
6. Cynulliad Cenedlaethol Cymru
7. Senedd y DU

## Tarddiadau'r Lluniau

<sup>1</sup> Tarddiad: <http://en.wikipedia.org/wiki/File:Plato-raphael.jpg> Awdur: Raffaello Sanzio (1483–1520) Trwydded: Parth cyhoeddus.

<sup>2</sup> Tarddiad: <http://commons.wikimedia.org/wiki/File:European-parliament-brussels-inside.JPG> Awdur: WL. Trwydded: Creative Commons Attribution-Share Alike 3.0 Unported

<sup>3</sup> Tarddiad: [http://en.wikipedia.org/wiki/File:EU\\_Globe\\_No\\_Borders.svg](http://en.wikipedia.org/wiki/File:EU_Globe_No_Borders.svg) Awdur: Tomeasy. Trwydded: Creative Commons Attribution 3.0 Unported

<sup>4</sup> Tarddiad: [http://en.wikipedia.org/wiki/File:European\\_court\\_of\\_human\\_rights.JPG](http://en.wikipedia.org/wiki/File:European_court_of_human_rights.JPG) Awdur: Alfredovic. Trwydded: Creative Commons Attribution 3.0 Unported

<sup>5</sup> Tarddiad: [http://en.wikipedia.org/wiki/File:Railway\\_on\\_Constitution\\_hill\\_1.JPG](http://en.wikipedia.org/wiki/File:Railway_on_Constitution_hill_1.JPG) Awdur: Herbythyme. Trwydded: Creative Commons Attribution 3.0 Unported

<sup>6</sup> Tarddiad: [http://commons.wikimedia.org/wiki/File:Batonik\\_Jacek.jpg](http://commons.wikimedia.org/wiki/File:Batonik_Jacek.jpg) Awdur: Rovdyr. Trwydded: GNU Free Documentation

<sup>7</sup> Tarddiad: [http://en.wikipedia.org/wiki/File:Motorola\\_L7.jpg](http://en.wikipedia.org/wiki/File:Motorola_L7.jpg) Awdur: Kristoferb Trwydded: Creative Commons Attribution 3.0 Unported

<sup>8</sup> Tarddiad: [http://en.wikipedia.org/wiki/File:Parliament\\_at\\_Sunset.JPG](http://en.wikipedia.org/wiki/File:Parliament_at_Sunset.JPG) Awdur: Mгимelfarb. Trwydded: Parth cyhoeddus

<sup>9</sup> Tarddiad: [http://en.wikipedia.org/wiki/File:Wales\\_Administrative\\_Map\\_2009.png](http://en.wikipedia.org/wiki/File:Wales_Administrative_Map_2009.png) Awdur: XrysD. Trwydded: GNU Free Documentation Trwydded

<sup>10</sup> Tarddiad: [http://commons.wikimedia.org/wiki/File:Rubbish\\_collection\\_-\\_geograph.org.uk\\_-\\_651870.jpg](http://commons.wikimedia.org/wiki/File:Rubbish_collection_-_geograph.org.uk_-_651870.jpg) Awdur: Callum Black. Trwydded: Creative Commons Attribution-ShareAlike Generic 2.0

<sup>11</sup> Tarddiad: <http://en.wikipedia.org/wiki/File:Milleniumstadiumcardiff2.jpg> Awdur: Chong Fat. Trwydded: GNU Free Documentation Trwydded, Version 1.2

- 
- <sup>12</sup> Tarddiad: [http://commons.wikimedia.org/wiki/File:Clarendon\\_Street\\_housing\\_-\\_geograph.org.uk\\_-\\_710722.jpg](http://commons.wikimedia.org/wiki/File:Clarendon_Street_housing_-_geograph.org.uk_-_710722.jpg) Awdur: Sebastian Ballard. Trwydded: Creative Commons Attribution-Share Alike 2.0 Generic
- <sup>13</sup> Tarddiad: <http://en.wikipedia.org/wiki/File:Rm46.jpg> Awdur: Candelwicke. Trwydded: Parth cyhoeddus
- <sup>14</sup> Tarddiad: <http://commons.wikimedia.org/wiki/File:WomanFactory1940s.jpg> Awdur: Howard R Hollem. Trwydded: Parth cyhoeddus
- <sup>15</sup> Tarddiad: [http://commons.wikimedia.org/wiki/File:Airport\\_Police\\_Jacket\\_Cork.png](http://commons.wikimedia.org/wiki/File:Airport_Police_Jacket_Cork.png) Awdur: GWEEDORE Trwydded: Creative Commons Attribution-Share Alike 3.0 Unported
- <sup>16</sup> Tarddiad: [http://commons.wikimedia.org/wiki/File:Baby\\_yelling.jpg](http://commons.wikimedia.org/wiki/File:Baby_yelling.jpg) Awdur: Dave Buchwald. Trwydded: Creative Commons Attribution-Share Alike 3.0 Unported
- <sup>17</sup> Tarddiad: [http://commons.wikimedia.org/wiki/File:Full\\_Ashtray.jpg](http://commons.wikimedia.org/wiki/File:Full_Ashtray.jpg) Awdur: Stefan-Xp. Trwydded: Creative Commons Attribution-Share Alike 3.0
- <sup>18</sup> Tarddiad: [http://commons.wikimedia.org/wiki/File:Uk\\_outline\\_map\\_2.PNG](http://commons.wikimedia.org/wiki/File:Uk_outline_map_2.PNG) Awdur: Michiel1972. Trwydded: Creative Commons Attribution-Share Alike 3.0 Unported
- <sup>19</sup> Tarddiad: [http://commons.wikimedia.org/wiki/File:Scottish\\_Parliament\\_Building\\_-\\_geograph.org.uk\\_-\\_428432.jpg](http://commons.wikimedia.org/wiki/File:Scottish_Parliament_Building_-_geograph.org.uk_-_428432.jpg) Awdur: Richard Dear Trwydded: Creative Commons Attribution-Share Alike 2.0 Generic
- <sup>20</sup> Tarddiad: [http://en.wikipedia.org/wiki/File:Parliament\\_Buildings\\_Stormont.jpg](http://en.wikipedia.org/wiki/File:Parliament_Buildings_Stormont.jpg) Awdur: Wknight94. Trwydded: Creative Commons Attribution-Share Alike 3.0 Unported
- <sup>21</sup> Tarddiad: [http://en.wikipedia.org/wiki/File:Steps\\_-\\_Senedd.jpg](http://en.wikipedia.org/wiki/File:Steps_-_Senedd.jpg) Awdur: Mark Chatterley. Trwydded: Creative Commons Attribution 2.0 Generic
- <sup>22</sup> Tarddiad: [http://commons.wikimedia.org/wiki/File:Carmarthenshire\\_in\\_Wales.svg](http://commons.wikimedia.org/wiki/File:Carmarthenshire_in_Wales.svg) Awdur: TUBS. Trwydded: Creative Commons Attribution-Share Alike 3.0 Unported
- <sup>23</sup> Tarddiad: [http://commons.wikimedia.org/wiki/File:CBD\\_King\\_of\\_Liberia.jpg](http://commons.wikimedia.org/wiki/File:CBD_King_of_Liberia.jpg) Awdur: Harris & Ewing. Trwydded: Parth cyhoeddus
- <sup>24</sup> Tarddiad: [http://en.wikipedia.org/wiki/File:Location\\_Liberia\\_AU\\_Africa.svg](http://en.wikipedia.org/wiki/File:Location_Liberia_AU_Africa.svg) Awdur: Alvaro1984 18. Trwydded: Parth cyhoeddus
- <sup>25</sup> Tarddiad: <http://www.flickr.com/photos/welshgovernment/5729688312/sizes/z/in/photostream/> Awdur: Welsh Government. Trwydded: Creative Commons Attribution-Share Alike 2.0 Generic
- <sup>26</sup> Tarddiad: [http://en.wikipedia.org/wiki/File:Bundesarchiv\\_Bild\\_146-2005-0057\\_-\\_Otto\\_von\\_Bismarck.jpg](http://en.wikipedia.org/wiki/File:Bundesarchiv_Bild_146-2005-0057_-_Otto_von_Bismarck.jpg) Awdur: Jacques Pilartz. Trwydded: Parth cyhoeddus
- <sup>27</sup> Tarddiad: [http://en.wikipedia.org/wiki/File:Hywel\\_Dda.jpg](http://en.wikipedia.org/wiki/File:Hywel_Dda.jpg) Tarddiad: National Library of Wales. Trwydded: Parth cyhoeddus
- <sup>28</sup> Tarddiad: <http://www.flickr.com/photos/conservatives/3928928596/sizes/m/in/photostream/> Awdur: conservativeparty. Trwydded: Attribution-NonCommercial-NoDerivs 2.0 Generic
- <sup>29</sup> Tarddiad: [http://en.wikipedia.org/wiki/File:Elizabeth\\_II\\_greets\\_NASA\\_GSFC\\_employees,\\_May\\_8,\\_2007\\_edit.jpg](http://en.wikipedia.org/wiki/File:Elizabeth_II_greets_NASA_GSFC_employees,_May_8,_2007_edit.jpg) Awdur: NASA / Bill Ingalls. Trwydded: Parth cyhoeddus
- <sup>30</sup> Tarddiad: <http://en.wikipedia.org/wiki/File:Plastiktueten.jpg> Awdur: Tim Simms. Trwydded: Creative Commons Attribution-Share Alike 3.0 Unported

---

<sup>31</sup> Tarddiad: [http://en.wikipedia.org/wiki/File:Keith\\_Towler.jpg](http://en.wikipedia.org/wiki/File:Keith_Towler.jpg) Awdur: National Assembly for Wales. Trwydded: Creative Commons Attribution 2.0 Generic